AMODAU

1. **Bydd gan y Beirniaid hawl i atal neu rannu gwobrau yn ôl teilyngdod.**
2. **Rhaid i bob cystadleuydd dderbyn cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod ag eithrio'r partïon, Corau ac Unawd o Sioe Gerdd. (Gall hyn gynnwys tâp neu allweddell wedi ei raglennu, ond ni ddylid cynnwys unrhyw leisiau cefndir)**
3. **Rhaid i bob cytadleuydd ofalu am gopïau i'r Beirniad a'r Cyfeilydd ac anfon copïau o gerddoriaeth gwirioneddol anodd i'r cyfeilydd ymlaen llaw.**
4. **Rhaid i'r cystadleuwyr Cerdd Dant ofalu am gopi o'r geiriau i'r Beirniad a chopi o'r alaw yn y cyweirnod priodol i'r cyfeilydd.**
5. **Y cynnyrch yn yr adrannau Llenyddiaeth a Chelf I fod yn llaw'r Ysgrifenyddion erbyn Ionawr 25ain, 2020. Ffugenw ar y Gwaith gydag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd ynglwm.**
6. **Rhaid i'r ymgeiswyr fod o fewn yr oedran priodol ar ddydd yr Eisteddfod.**
7. **Mae'r tariannau a'r cwpanau yng nghystadlaethau rhif 13, 16, 21, 22, 24, 28, 31, 32, 34 a 47 a'r Darian Gerddorol dan 25ain oed i'w dychwelyd i'r ysgrifenyddion erbyn Chwefror 1af, 2020.**
8. **Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau neu golledion a ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.**
9. **Unrhyw gŵyn yn ysgrifenedig o fewn wythnos.**
10. **Tynnir lluniau o'r cystadleuwyr buddugol ar y diwrnod.**
11. **Er mwyn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer yn cael ei gadw'n gyfrinachol.**

RHYBUDD **Mae llungopio cerddoriaeth argraffedig sydd o dan hawlfraint yn anghyfreithlon.**

Lluniaeth ar gael am bris rhesymol.

EISTEDDFOD GADEIRIOL Llanegryn

a gynhelir yn

NEUADD EGRYN, LLANEGRYN, TYWYN, GWYNEDD
DYDD SADWRN, CHWEFROR 15fed, 2020

LLYWYDD Y DYDD
Lyn Smith, Tywyn

ARWEINYDDION
Janet Pugh, Eurgain Owen, Edward Jones

BEIRNIAID

Cerdd, Cerdd Dant ac Alaw Werin - Helen Medi Williams, Aberystwyth

Llefaru - Rhian Parry, Pwllheli

Llenyddiaeth Agored - Iwan Morgan, Llan Ffestiniog

Llenyddiaeth Cynradd - Arwel a Gwenfair Pierce, Bryncrug

Celf Cynradd - Nia Rowlands, Llanuwchllyn

CYFEILYDD
Tudur P. Jones, F.R.C.O., Tywyn

MYNEDIAD: £4.00

"Gwell dysg na golud"

Ni dderbynnir unrhyw waith ar gyfer ei feirniadu yn y cystadlaethau ar ôl Chwefror 1af, 2020.

Dychwelir y Gwaith llenyddol ar ôl yr Eisteddfod, os anfonir amlenni wedi eu cyfeirio a'u stampio i'r Ysgrifenyddion gyda'r Gwaith.

RHYDDIAITH

45. Dan 25 oed: Testun agored (unrhyw ffurf). Gwobr: Tlws yr Ifanc ac £20.

46. Agored: Cyfieithu Detholiad allan o "Becoming Michelle Obama". (Copïau ar gael gan yr Ysgrifenyddion). Gwobrau: £20 yn rhoddedig gan Mrs Llywela Hughes, er cof am Mr Carroll Hughes, Tŷ'r Ysgol, Llanegryn.

47. Cystadleuaeth agored: Erthygl ar gyfer Papur Bro. Gwobr: Tlws Dail Dysynni er cof am Sulwyn a £20. (Amod 7).

BARDDONIAETH

48. Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 llinell, ar y testun "Y Dyffryn". Gwobr: Cadair fechan dderw a £50. Noddwyd gan Sied Egryn.

49. Englyn: "Bedd argraff i unrhyw wleidydd". Gwobr: £10.

50. Telyneg: "Gwreiddyn". Gwobr: £10.

51. Limrig: Yn cynnwys y llinell – "Wrth fynd efo Deio i Dywyn". Gwobr: £5.

RHESTR TESTUNAU

A THREFN CYSTADLAETHAU'R DYDD

I ddechrau am 12.00 o'r gloch
a 6 o'r gloch yr hwyr

CERDD A LLEFARU

1. Unawd Meithrin a Derbyn (5 oed ac iau): Hunan ddewisiad.
Gwobrau: £3, £2, £1 a 20c i'r gweddill.

2. Llefaru Meithrin a Derbyn (5 oed ac iau): Hunan ddewisiad.
Gwobrau: £3, £2, £1 a 20c i'r gweddill.

3. Unawd Bl. 2 ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £3, £2, £1.

4. Llefaru Bl. 2 ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £3, £2, £1.

5. Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £3, £2, £1.

6. Unawd Bl. 3 a 4: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

7. Llefaru Bl. 3 a 4: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

8. Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

9. Unawd Bl. 5 a 6: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

10. Llefaru Bl. 5 a 6: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

11. Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

12. Parti Llefaru Bl. 9 ac iau. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £15, £10.

13. Parti Unsain neu Ddeulais Bl. 9 ac iau. Hunan ddewisiad.
Gwobrau: Tarian Melanie a £15, £10. (Amod 7).

14. Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

15. Deuawd Bl. 9 ac iau. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £10, £8, £6.
Y gwobrau ariannol yn rhoddedig gan y teulu er cof am Mr a Mrs George Lloyd, Tŷ Bach y Ffordd, Llanegryn.

16. Unawd Piano/Unrhyw Offeryn Cerdd Bl. 9 ac iau. Hunan ddewisiad heb fod yn hwy na 5 munud. Gwobrau: Cwpan Coffa Miss Mary J. Vaughan a Miss Hilda P. Vaughan, Bryn Meirion, Llanegryn a £8, £5, £3. (Amod 7).

17. Unawd Merched/Bechgyn Bl. 7 – 9. Hunan ddewisiad. Gwobrau £8, £5, £3.

18. Llefaru Bl. 7 – 9. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.

19. Unawd Cerdd Dant Bl.7 – 9. Hunan ddewisiad. Gwobrau £8, £5, £3.

20. Unawd Alaw Werin Bl.7-9. Hunan ddewisiad. Gwobrau £8, £5, £3.

21. Unawd offerynnol dan 25 oed: Hunan ddewisiad heb fod yn hwy na 7 munud.
Gwobrau: Cwpan Coffa Eiluned o Lŷn a £25, £20, £15. (Amod 7).

22. Unawd dan 25 oed: Hunan ddewisiad. Gwobrau: Cwpan Coffa Mrs Edna Lloyd Owen, Tŷ Bach y Ffordd, Llanegryn a £25, £20, £15. (Amod 7).

23. Cystadleuaeth i rai sy'n dysgu Cymraeg. Perfformiad unigol neu mewn grŵp – dim hwy na 5 munud. Gwobrau: £30, £20, £10.

24. Unawd dros 60 oed: Emyn (Dim mwy na 3 pennill).
Gwobrau: Cwpan Coffa Mr a Mrs H. J. Rees, David ac Ida, Hen Siop, Llanegryn a £25, £20, £15 a £5 i'r gweddill. (Amod 7).

25. Sgen ti Dalent? – Unigolion/Grwpiau dros 16 oed. Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa ganu, dawnsio, action, llefaru, deud jôcs, canu offeryn, perfformio sgiliau syrcas, gwneud triciau a.y.y.b UNRHYW BETH fydd yn difyrru'r gynulleidfa. Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn sy'n addas ar gyfer cystadleuaeth arall yn rhaglen yr eisteddfod.
Gwobrau: £50 i'w rannu fel mae'r beirniaid yn dymuno,ond ni ddylir rhoi mwy na £25 yn wobr gyntaf. (rhoddedig gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru).

26. Unawd o Sioe Gerdd dan 25 oed. Gwobrau: £25, £20, £15.

27. Cyflwyno Tlws yr Ifanc i'r llenor gorau dan 25 a Tharian Côr Cymysg Bro Dysynni i'r eitem Gerddorol orau dan 25ain oed. (Amod 7).

28. Cân Werin Agored: Hunan ddewisiad.
Gwobrau: Cwpan Coffa Mr a Mrs J. Ll. Moss a £25, £20, £15. (Amod 7).

29. Llefaru agored: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £40, £30, £20.

30. SEREMONI'R CADEIRIO

31. Côr (Merched/Meibion/Cymysg) – unrhyw nifer: Hunan ddewisiad. (Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod rhwng Mai 2018 a Mai 2020 yn rhoi'r hawl i'r côr gystadlu yng nghystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol 2020).
Gwobrau: Cwpan Tannau Tywyn a £150, £100. (Amod 7). Noddwyd gan Magnox

32. Unawd Gymraeg: Hunan ddewisiad.
Gwobrau: Cwpan yn rhoddedig gan y diweddar Mr Len Jones (Len Llwyn) a £40, £30, £20. (Amod 7).

33. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2019 – 2020: Agored.
'Llefaru neu gyflwyno darn digri'. Gellir dewis barddoniaeth neu ryddiaith sydd eisioes wedi ei gyhoeddi, neu gellir cyflwyno darn gwreiddiol – dim mwy na 4 munud. Rhaid sicrhau copïau i'r beirniad. Gwobrau: £30, £20, £10.
Byddai ennill gwobr mewn dwy eisteddfod leol rhwng Eisteddfod Genedlaethol 2019 a diwedd Gorffennaf 2020 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2020 am wobrau o £100, £60, £40.

34. Her unawd: Hunan ddewisiad.

Gwobrau: Cwpan Coffa Mr Robert Emrys Gabriel a Mrs Margaret Jane Gabriel, Nantycynog, Llanegryn a £40, £30, £20. (Amod 7).

Yn dilyn agor Ysgol Craig y Deryn mae'r ddwy eisteddfod leol - Abergynolwyn a Llanegryn wedi cyd-weithio ar y cystadlaethau yn y ddwy adran ddilynol. Cyfyngir y cystadleuwyr i ddalgylch Ysgol Uwchradd Tywyn a gwobrwyir yr enillwyr un waith, ond cyhoeddir yr enwau yn y ddwy eisteddfod.

LLENYDDIAETH

35. Meithrin: Ysgrifennu Enw. Gwobrau: £3, £2, £1.

36. Derbyn: Ysgrifennu Enw. Gwobrau: £3, £2, £1.

37. Blwyddyn 1 a 2: Stori. Gwobrau: £3, £2, £1.

38. Blwyddyn 3 a 4: Stori. Gwobrau: £5, £3, £2.

39. Blwyddyn 5 a 6: Stori. Gwobrau: £5, £3, £2.

CELF A DYLUNIO

40. Meithrin: "Dyma fi". Gwobrau: £3, £2, £1.

41. Derbyn: "Dyma fi". Gwobrau: £3, £2, £1.

42. Blwyddyn 1 a 2: Unrhyw eitem 2D – "Môr a Mynydd". Gwobrau: £3, £2, £1.

43. Blwyddyn 3 a 4: "Unrhyw eitem 2D – "Môr a Mynydd". Gwobrau: £5, £3, £2.

44. Blwyddyn 5 a 6: "Unrhyw eitem 2D – "Môr a Mynydd". Gwobrau: £5, £3, £2.

SWYDDOGION Y PWYLLGOR

Cadeirydd: Eurgain Owen, Tŷ Croes Isaf, Rhoslefain.

Trysorydd: Llywela Hughes, Tŷ'r Ysgol, Llanegryn.

Is-Drysorydd: Nesta Jones, Pant, Bryncrug, Tywyn

Ysgrifenyddion:

Nerys M. Ellis, Llwyn Awel, Bryncrug, Tywyn. LL36 9NS
(Ffôn: 01654 711 925)
nmellis1@live.com

Elain Heledd, 4 Penygarth, Bryncrug, Tywyn. LL36 9PH
(01654 712059)
e.heledd@btinternet.com

Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn

Rhif elusen: 504058

Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

NODDWYR

Cyngor Cymuned Llanegryn
Cronfa'r Degwm, Cyngor Gwynedd
Cronfa Elw Park-Jones
Magnox
Sied Egryn

YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

Sefydlwyd y gronfa i gynorthwyo eisteddfodau Cymru a gwethfawrogir hyn yn fawr iawn.

DIOLCH

Dymuna aelodau'r pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar iawn bob rhodd a gweithred er llwyddiant yr Eisteddfod. Ni fyddai'r Eisteddfod yn ffynnu heb gefnogaeth ei charedigion.